

Technegau Adolygu

Cardiau Fflach:


Dull gwyh o **gofnodi gwybodaeth allweddol**. Gallwch naill ai eu gwneud nhw eich hunan trwy eu torri allan o gerdyn/papur neu gallwch brynu cardiau indecs o siop deunydd ysgrifennu neu ar-lein, neu gallwch eu gwneud trwy ddefnyddio gwasanaeth ar-lein/cyfrifiadur.

Gallwch **ysgrifennu ar y ddwy ochr**. Y peth gorau yw **eu rhannu yn ôl pwnc** a defnyddio codau lliw. Os ydi hynny'n gweddu i chi, mae lliwio'ch cardiau fflach a defnyddio diagramau neu ddarluniau yn help i gofio.

Awgrymodd un myfyriwr y dylech chi lamineiddio eich cardiau fflach ar ôl eu gwneud, fel eu bod yn para'n hirach.

SAFMEDS:

Mae SAFMEDS yn **syniad sydd wedi datblygu o Gardiau Fflach** ac arf dysgu a ddefnyddir mewn Addysgu Manwl Gywir (*Precision Teaching*).



Cynlluniwyd SAFMEDS i gynyddu rhuglder gwybodaeth.

Mae'r enw, SAFMEDS yn acronym o **Say All Fast, Minute Each Day, Shuffle**.

Ar eich cerdyn SAFMEDS byddech yn **ysgrifennu un cwestiwn neu osodiad** ar un ochr. Ar ochr arall y cerdyn, byddech yn ysgrifennu'r ateb i'r cwestiwn neu'r ymateb i'r gosodiad.

Un agwedd bwysig ar SAFMEDS yw pan fyddwch yn gwneud camgymeriad, nad yw'n anghywir ond yn **gyfle dysgu**.

Bydd angen rhyw **80-100 o gardiau** arnoch i fod yn effeithiol.

Sut i ddefnyddio SAFMEDS:

1. Gosodwch amserydd **am funud** a phwyswch 'dechrau'.
2. **Darllenwch** y cwestiwn cyntaf **yn ddistaw**, dywedwch yr ateb yn uchel yna throwch y cerdyn drosodd a gwiriwch eich ateb.
3. Os ydych yn **gywir**, rydych yn gosod y cerdyn ar **un pentwr**. Os ydych yn cael cyfle dysgu, rydych yn gosod y cerdyn ar bentwr gwahanol. Gwnewch hyn cynifer o weithiau ag y gallwch mewn munud.
4. Ar ôl i'r amserydd ganu, **cyfrifwch** faint o gyfleoedd dysgu a chardiau cywir sydd gennych. Cofnodwch y niferoedd yn rhywle, ynghyd â chyfanswm y cardiau.



5. Os ydych yn un da gyda thaenlenni, gallech ddechrau **gwneud graff o'r canlyniadau**, gyda thair llinell, un i'r cyfleoedd dysgu, un i'r atebion cywir, ac un i'r cyfanswm cardiau.
6. Cyn i chi wneud yr ymarfer eto'r diwrnod wedyn, **cymysgwch** y cardiau.
7. Mae'n bwysig eich bod yn gwneud yr ymarfer **bob dydd** ac yn **cofnodi** eich cynnydd bob tro.
8. Mae'n bwysig bod **mor gyflym â phosibl**; os nad ydych yn gwybod yr ateb, gosodwch y cerdyn ar y pentwr cyfle dysgu ac ewch i'r cerdyn nesaf yn syth heb oedi dim.
9. Dylech weld yn **eithaf buan** eich bod yn mynd trwy fwy o gardiau ac yn cael mwy o atebion cywir. Ond os nad ydych yn gweld gwelliant, beth am ymestyn y cyfnod i ddau funud neu ddarllen yr holl gardiau, gan ddweud yr atebion yn uchel, cyn dechrau'r dasg bob diwrnod.
10. Rhowch gynnig ar **un peth newydd** ar y tro a chofnodwch y newid. Bydd rhoi'r canlyniadau ar ffurf graff yn eich helpu i'w deall ar ffurf weledol.